OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1162

## Gorchymyn Tatws sy'n Tarddu o'r Iseldiroedd (Hysbysu) (Cymru) 2005

**Hysbysu o fewnforion**

**3.**—(1) Ni chaiff neb, wrth gynnal busnes, fewnforio tatws i Gymru y mae'r person hwnnw'n gwybod eu bod, neu y mae ganddo sail resymol dros amau eu bod, yn datws perthnasol, oni bai ei fod wedi rhoi hysbysiad ysgrifenedig i arolygydd, o leiaf ddau ddiwrnod cyn y dyddiad yr oedd yn bwriadu eu mewnforio i Gymru, o'i fwriad i fewnforio'r tatws o dan sylw, ac ynghylch—

(a) amser, dyddiad a dull arfaethedig eu mewnforio;

(b) y pwynt mynediad arfaethedig ar gyfer dod â hwy i mewn i Gymru;

(c) y defnydd arfaethedig ar y tatws;

(ch) cyrchfan arfaethedig y tatws;

(d) rhywogaeth y tatws;

(dd) y maint o datws; ac

(e) Rhif adnabod y cynhyrchydd.

(2) Rhaid i unrhyw berson a fewnforiodd, ar ôl 1 Medi 2004 a chyn i'r Gorchymyn hwn ddod i rym, datws hadyd perthnasol i Gymru, wrth gynnal busnes, roi, o ran y tatws hynny, hysbysiad ysgrifenedig i arolygydd erbyn 3 Mai 2005 fan bellaf ynghylch—

(a) y dyddiad y mewnforiwyd y tatws;

(b) y pwynt mynediad lle doed â hwy i mewn i Gymru;

(c) y defnydd arfaethedig ar y tatws;

(ch) cyrchfan neu gyrchfan arfaethedig y tatws;

(d) rhywogaeth y tatws;

(dd) y maint o datws a fewnforiwyd; ac

(e) Rhif adnabod y cynhyrchydd.